Taflen ffeithiau

Rhoi yn ystod bywyd

Gwaed

- Mae galw cyson am waed ond mae llai na 4% o'r bobl yn y DU a allai roi gwaed yn gwneud felly mewn gwirionedd.
- Gallwch ddechrau rhoi gwaed pan rydych yn 17 oed, yn gyffredinol iach ac yn pwyso dros 50cilo (7st 12owns).
- Cynhelir sesiynau rhoi gwaed ledled y wlad. Mae rhoi gwaed yn cymryd tua awr.
- Byddwch yn rhoi tua 470ml o waed.
- Mae rhoddwyr rheolaidd yn rhoi gwaed bob 16 wythnos; sef pob pedwar mis fwy neu lai.
- Gall llond llwy de o waed arbed bywyd babi pan fydd yn dal i fod yn y groth.
- Fel rheol rhennir gwaed wedi'i roi yn gelloedd coch, platennau a phlasma a gellir ei ddefnyddio i helpu nifer o gleifion.

Beth y gellir ei roi yn ystod bywyd?

- Gwaed
- Mêr esgyrn
- Gwaed llinyn
- Asgwrn
- Arennau a rhannau o organau eraill
- Pilen amniotig

Mêr esgyrn

- Gall rhoddion mêr esgyrn (sef rhoddion bôn-gelloedd mewn gwirionedd) arbed bywydau pobl sy'n dioddef o amryw afiechydon, anhwylderau genetig a chanserau yn cynnwys lewcemia.
- Yn y DU mae pobl yn dal i farw wrth iddyn nhw aros am gydweddiad mêr esgyrn.
- Meinwe meddal yw mêr esgyrn a geir yng nghanol rhai esgyrn. Mae'n cynnwys bôn-gelloedd sy'n cynhyrchu gwaed, a heb waed ni fyddai'r claf yn gallu para'n fyw.
- I fod yn rhoddwr mêr esgyrn mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed ac wedi ymuno â chofrestrfa mêr esgyrn. Gellid trefnu hyn gan wasanaeth gwaed lleol neu gofrestr arall a gynhelir gan elusen.
- Cedwir eich manylion mewn cofrestrfa mêr esgyrn a bydden nhw'n cysylltu â chi os ydych yn gydweddiad da ar gyfer rhywun sydd â'i angen.
- Mae dwy brif ffordd o roi bôn-gelloedd – naill ai trwy roi'r mêr esgyrn ei hun mewn proses syml yn yr ysbyty neu trwy roi bôn-gelloedd o'r gwaed cylchredol gan ddefnyddio peiriant gwahanu celloedd.
- Yn rhai rhannau o'r wlad mae hefyd yn bosibl i famau roi bôn-gelloedd o waed llinyn ar ôl i'w babi gael ei eni.

Organau a meinwe

- Mae rhoi organau byw, yn enwedig arennau, wedi cynyddu fesul tipyn dros y deng mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae un o bob pedwar trawsblaniad yn digwydd diolch i roddwr byw.
- Weithiau gall meinwe ar gyfer trawsblaniad ddod oddi wrth roddwr byw hefyd. Pan fod claf yn cael llawdriniaeth i roi clun newydd, gellir hefyd rhoi'r hen asgwrn a dynnir.
- Gellir defnyddio'r bilen amniotig o gwmpas brych babi newydd ei eni i wella anafiadau difrifol i'r llygaid. Gellir ei chasglu ar ôl geni os genir y babi drwy doriad Cesaraidd.